

# Llythrennedd a Rhifedd

## Canllawiau ar gyfer rhieni



### Beth yw'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd?

Fframwaith sydd wedi'i gynllunio gan Lywodraeth Cymru fel bod ein plant yn datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd ardderchog yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae'n darparu deilliannau disgwylidig clir mewn llythrennedd a rhifedd i bob dysgwr 5-14 oed.

Bydd ysgolion yn defnyddio'r Fframwaith i sicrhau y bydd addysgu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn cael eu cynnwys yn yr holl bynciau ar draws y cwricwlwm yn hytrach na ffocysu ar Gymraeg, Saesneg a Mathemateg yn unig.

## Llyfr Cyswllt

Mae adran Llythrennedd a Rhifedd yn Llyfr Cyswllt eich plentyn sy'n adnodd defnyddiol ar gyfer cynorthwyo'ch plentyn â gwaith cartref, dysgu rheolau sillafu a gramadeg, ac adolygu tablau!



### Beth yw'r Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol?

#### Prawf Darllen Cenedlaethol

Bydd pob disgybl o flwyddyn 2 i Flwyddyn 9 yn sefyll Prawf Darllen ym mis Mai.

#### Prawf Rhifedd ac ymresymu Cenedlaethol

Mae pob disgybl o flwyddyn 2 i Flwyddyn 9 yn sefyll Prawf Rhifedd a phrawf ymresymu ym mis Mai. Mae dwy ran i'r profion: un yn profi eu gwybodaeth gweithdrefnol (sgiliau rhifedd) a'r llall yn profi eu rhesymu rhifyddol (datrys problemau).

### Sut byddwn yn cael canlyniadau'r Profion?

Byddwch yn derbyn adroddiad gan Lywodraeth Cymru ar bob prawf.

Bydd hyn yn rhoi:

- Sgôr Safonedig.
- Sgôr sy'n gyfatebol ag oed.
- Dangosydd o sut y perfformiodd eich plentyn o gymharu â disgyblion oed tebyg.

Bydd adroddiad Lywodraeth Cymru yn ychwanegol i adroddiad blynyddol arferol eich plentyn a ysgrifennir gan athrawon.



# Helpu fy mhlentyn

## Rhifedd.

- ◆ Y peth pwysicaf yw helpu eich plentyn i deimlo'n bositif ynghylch mathemateg a'i fwynhau ar bob achlysur.
- ◆ Rhoi'r cyfle i'ch plentyn i ddefnyddio a siarad am fathemateg bob dydd.
- ◆ Annog eich plentyn i :

**Ddidoli**—i grwpiau, i drefn, a chymharu a mesur.


**Cyfrifo**— adio, tynnu, lluos, rhannu.

**Trefnu** a deall gwybodaeth.

Edrych am **batrymau** a pherthynas rhwng rhifau.

## Llythrennedd

- ◆ Sefydlu amser a lle rheolaidd i ddarllen.
- ◆ Amrywiaeth o ddeunydd darllen yn gyfleus: papurau newydd, cylchgronau, mapiau, llyfrau jôcs.
- ◆ Rhannu hoffter o ddarllen. "Hwn oedd fy hoff lyfr pan oeddwn dy oed di."
- ◆ Cael sgysiau'n aml a gadael i blant fynegi eu teimladau a'u syniadau.
- ◆ Chwarae gêmâu geiriau, er enghraifft, hangman, scrabble, croesair, chwilair.



## Apps i gynorthwyo

- Puppet Pals (sgiliau llafar a meddwl)
- Comic Life (Sgiliau Llythrennedd—Ysgrifennu)
- Maths Bingo (Sgiliau Rhifedd)
- Spellosaur (Llythrennedd)
- My Spelling Test (Llythrennedd)
- Mathemagics (Rhifedd)
- Athletics (Rhifedd)
- Explain Everything (Sgiliau meddwl a Rhifedd)
- My Story (Sgiliau Llythrennedd a meddwl)
- A+ Spelling Test (Llythrennedd)
- Sumdog (Llythrennedd a Rhifedd)
- BKSB Live (Llythrennedd a Rhifedd)

## Sgiliau Meddwl

Gofynnwch gwestiynau i'ch plant er mwyn iddynt feddwl a mynegi syniadau e.e.:

- ◆ Os dyma'r ateb...beth yw'r cwestiwn?
- ◆ All di ddyfeisio rhywbeth i ...?
- ◆ Pe baet yn Brif Weinidog, beth fyddet yn ei newid a pham?
- ◆ Beth fydd yn digwydd os...?
- ◆ Pam mae... yn digwydd?
- ◆ Eglura sut mae hynny'n gweithio...
- ◆ Pam rwyt yn meddwl hynny?